

# Negodiadau ar ymadawiad y DU â'r UE Rhifyn Arbennig Uwchgynhadledd Cyngor yr UE Adroddiad Monitro Brexit

23 Hydref 2019



Y Cynulliad

BREXIT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
**Ymchwil y Senedd**

# Negodiadau ar ymadawiad y DU â'r UE Rhifyn Arbennig Uwchgynhadledd Cyngor yr UE

## Adroddiad Monitro Brexit

23 Hydref 2019

**Awduron:**  
Sara Moran a Nia Moss

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
[www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6472**

E-bost: [Sara.Moran@Cynulliad.Cymru](mailto:Sara.Moran@Cynulliad.Cymru)

Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

Blog: [SeneddYmchwil.blog](http://SeneddYmchwil.blog)

LinkedIn: [Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru](https://www.linkedin.com/company/y-cynulliad-cenedlaethol-cymru)

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



Y Cynulliad

**BREXIT**

## Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
Crynodeb o'r datblygiadau .....	1
<b>2. Uwchgynhadledd yr UE .....</b>	<b>3</b>
Datblygiadau cyn yr Uwchgynhadledd .....	3
Y prif ddatblygiadau yn ystod yr Uwchgynhadledd.....	3
Cyhoeddi Cytundeb Newydd .....	3
Y Datganiad Gwleidyddol .....	5
Y camau nesaf.....	6
<b>3. Ymateb y DU .....</b>	<b>7</b>
Datganiadau Llywodraeth y DU.....	7
Datganiadau'r wrthblaid .....	7
<b>4. Ymateb yr UE .....</b>	<b>9</b>

<b>5. Datblygiadau yn y DU.....</b>	<b>10</b>
Araith y Frenhines.....	10
Heriau cyfreithiol i'r Cytundeb Ymadael newydd .....	10
Y Twrnai Cyffredinol yn cyhoeddi barn gyfreithiol .....	11
Sesiwn frys Senedd y DU ddydd Sadwrn.....	12
Her gyfreithiol i ddiffyg cydymffurfiaeth â Deddf Benn .....	14
Y llythyr yn gofyn am estyniad i'r Negodiadau Ymadael.....	16
Y paratodau ar gyfer ymadael heb gytundeb.....	16
<b>6. Yr ymateb gan Gymru a'r Alban.....</b>	<b>17</b>

## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r datblygiadau yn Uwchgynhadledd Cyngor yr Undeb Ewropeaidd a gynhaliwyd ar 17-18 Hydref 2019.

Mae'n rhoi:

- Crynodeb o'r prif ddatblygiadau yn arwain at gyfarfod y Cyngor;
- Dadansoddiad manylach o'r prif ddatblygiadau yng nghyfarfod y Cyngor;
- Dadansoddiad o'r Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol newydd;
- Trosolwg o ddatblygiadau yn y DU ers Uwchgynhadledd Cyngor yr UE.

### Crynodeb o'r datblygiadau

Ar 17 Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r UE eu bod wedi cytuno ar gytundeb ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE a datganiad gwleidyddol diwygiedig ar eu perthynas yn y dyfodol. Mae'r cytundeb diwygiedig yn cynnwys protocol newydd ar Ogledd Iwerddon ac Iwerddon sy'n golygu y byddai Gogledd Iwerddon yn dilyn cod tollau a rheolau TAW yr UE, ynghyd â'r gorchymyn rheoleiddio ar nwyddau, ond y byddai'n aros o fewn tiriogaeth tollau'r DU. Byddai'r trefniant newydd hwn yn berthnasol am gyfnod cychwynol o bedair blynedd ac yna byddai ei barhad yn amodol ar gydsyniad Cynulliad Gogledd Iwerddon. Mae'r Datganiad Gwleidyddol diwygiedig yn cefnogi cytundeb masnach rydd 'dwys' ac 'uchelgeisiol' â'r UE a chytundebau cydweithredu mewn sectorau eraill.

Cefnogwyd y cytundeb diwygiedig gan 27 Aelod-wladwriaeth yr UE yng nghyfarfod y Cyngor ar 18 Hydref. Ar ochr yr UE, bydd y cytundeb nawr yn destun cadarnhad gan Senedd Ewrop cyn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor Ewropeaidd.

Cynhaliodd Prif Weinidog y DU sesiwn eithriadol o Senedd y DU ddydd Sadwrn 19 Hydref i geisio cynnal pleidlais ystyrion ar delerau'r cytundeb ymadael. Methodd Llywodraeth y DU â sicrhau cefnogaeth i'r Cytundeb Ymadael. Yn lle hynny pleidleisiodd Senedd y DU o blaid gwelliant i gynnig y Llywodraeth sy'n nodi na ellir cynnal pleidlais ystyrion ar y cytundeb diwygiedig tan y bydd y Senedd wedi ystyried a phasio'r ddeddfwriaeth i weithredu'r cytundeb ymadael.

Roedd y methiant i sicrhau'r bleidlais yn golygu bod yn rhaid i'r Prif Weinidog gydymffurfio â gofynion Deddf 'Benn' (Deddf Ymadael â'r UE (Rhif 2) 2019) drwy ofyn am estyniad gan y Cyngor Ewropeaidd i'r cyfnod negodi hyd at 31 Ionawr 2020. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, mae'r Cyngor Ewropeaidd yn ystyried y cais.

Ar 21 Hydref, cyflwynodd Llywodraeth y DU gynnig yn gofyn i'r Senedd gymeradwyo'r Cytundeb Ymadael, y Datganiad Gwleidyddol a'r Datganiad Unochrog ar weithredu'r caniatâd democrataidd yn narpariaeth Gogledd Iwerddon. Gwrthodwyd y cynnig gan John Bercow, Llefarydd y Tŷ. Yn y cyfamser, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog yr Alban Iythyrau ar y cyd at y Prif Weinidog a Donald Tusk, Arlywydd y Cyngor Ewropeaidd. Mae'r ddau lythyr yn gofyn am ragor o amser i'r cenhedloedd datganoledig graffu'n llawn ar y cynigion diweddaraf a gweithredu deddfwriaeth.

Cyflwynodd Llywodraeth y DU Bil y Cytundeb Ymadael i weithredu'r Cytundeb Ymadael diwygiedig ar 21 Hydref. Pasiodd pleidlais i symud y ddeddfwriaeth i'w cham nesaf yn y broses deddfu o 329 pleidlais i 299. Fodd bynnag, yn fuan wedi hynny gwrthododd Tŷ'r Cyffredin raglen graffu Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil o 322 pleidlais i 308. Wrth ymateb i'r bleidlais, cyhoeddodd y Prif Weinidog na fyddai'r ddeddfwriaeth yn symud ymlaen i'r cam nesaf o'r broses deddfu nes bod yr UE yn dod i benderfyniad ynghylch ymestyn cyfnod trafod Erthygl 50 ai peidio i 31 Ionawr 2020.

Disgwylir i'r DU ymadael â'r UE ar 31 Hydref oni bai fod y Cyngor Ewropeaidd yn caniatáu i'r cais i ymestyn. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y gallai etholiad cyffredinol gael ei alw os caniateir estyniad.

## 2. Uwchgynhadledd yr UE

### Datblygiadau cyn yr Uwchgynhadledd

Gan gyfarfod ar ffurf 27 aelod-wladwriaeth yr UE, cynhaliodd Cyngor yr UE **Gyngor Materion Cyffredinol ar 15 Hydref**, lle rhoddodd Michel Barnier y wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau. Dywedodd Tytti Tuppurainen, Gweinidog Materion Ewropeaidd y Ffindir:

The ministers today have shown their unity in what could, hopefully, be the last stretch of these very long negotiations. The EU is still committed to finding an orderly solution to Brexit. Time is of the essence.

Gweler **Ilinell amser y Cyngor Ewropeaidd**, i gael gwybodaeth gefndirol fanylach yn y cyfnod cyn yr Uwchgynhadledd.

### Y prif ddatblygiadau yn ystod yr Uwchgynhadledd

Roedd **Agenda'r Uwchgynhadledd** yn nodi eitemau i'w trafod dros y deuddydd, gyda Brexit yn dilyn y gyllideb hirdymor, yr agenda strategol a'r hinsawdd.

### Cyhoeddi Cytundeb Newydd

Ar 17 Hydref, cyhoeddodd y DU a'r UE eu bod wedi cytuno ar gytundeb newydd. Yn fuan wedi hynny, cyhoeddwyd y dogfennau a ganlyn:

- **Y Protocol Diwygiedig ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon;**
- **Datganiad Gwleidyddol Diwygiedig**
- **Argymhelliad Comisiwn yr UE;** a
- **Datganiad i'r wasg gan y Comisiwn Ewropeaidd** yn argymhell bod y Cyngor Ewropeaidd yn cymeradwyo'r cytundeb.

At hynny, cyhoeddodd y DU **Ddatganiad Unochrog ar Gydsyniad**, o ran Gogledd Iwerddon.

Cyhoeddwyd testun llawn **y Cytundeb Ymadael** diwygiedig gan Lywodraeth y DU ar 19 Hydref.

Mae'r unig newidiadau sylweddol y cytunwyd arnynt i destun y Cytundeb Ymadael, o'i gymharu â'r hyn y cytunwyd arno gan Theresa May, yn ymwneud â'r Protocol ar Ogledd Iwerddon ac Iwerddon. Gwnaed newidiadau hefyd i destun y Datganiad Gwleidyddol sy'n nodi'r paramedrau ar gyfer trafodaethau ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

### Y protocol diwygiedig

Mae'r protocol newydd yn dileu'r trefniadau os metha popeth arall (y *backstop*) a oedd wedi'u cynnwys yn y Cytundeb Ymadael blaenorol. Roedd y *backstop* yn darparu i'r DU gyfan aros yn Undeb Tollau'r UE er mwyn osgoi cyflwyno ffin 'galed' ar dir ynys Iwerddon, pe na bai modd cytuno ar berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Dim ond i Ogledd Iwerddon y mae'r protocol newydd yn berthnasol. Dyma brif nodweddion y Protocol:

- Bydd Gogledd Iwerddon yn parhau i gydymffurfio â'r rhan fwyaf o reoliadau'r UE ar nwyddau;
- Bydd Gogledd Iwerddon yn rhan o diriogaeth tollau'r DU ond bydd yn cymhwyso cod tollau a thariffau'r UE i unrhyw nwyddau sy'n dod i mewn i Ogledd Iwerddon y gallent fynd i mewn i farchnad yr UE drwy Iwerddon. Bydd y tariffau yn cael eu casglu gan y DU.
- Bydd Gogledd Iwerddon yn cael ei gynnwys mewn unrhyw Gytundebau Masnach Rydd yn y dyfodol y mae'r DU yn eu llofnodi gyda gwledydd eraill mewn perthynas â gwasanaethau, allforio nwyddau a mewnfario nwyddau, ar yr amod nad oes perygl iddynt fynd i mewn i'r UE.
- Bydd Gogledd Iwerddon yn parhau yn rhan o ardal TAW y DU ond yn dilyn rheolau TAW yr UE ar nwyddau.
- Ar ôl pedair blynedd wedi i'r cytundeb gael ei gadarnhau, bydd cyfle i Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon bleidleisio drwy fwyafrif syml a ddylid parhau i gymhwyso'r Protocol neu ddewis gwyrto o'r UE ac Iwerddon. Os caiff y bleidlais ei phasio gan fwyafrif syml yna rhoddir caniatâd am gyfnod arall o bedair blynedd. Os bydd y cynnig yn cael cefnogaeth gyffredinol gan yr unoliaethwyr a'r cenedlaetholwyr, yn unol â gweithdrefnau pleidleisio cyfredol y Cynulliad, yna bernir bod caniatâd wedi'i roi am wyth mlynedd.

## Y Datganiad Gwleidyddol

Cytunwyd ar newidiadau hefyd i'r Datganiad Gwleidyddol sy'n cyd-fynd â'r Cytundeb Ymadael. Nid testun cyfreithiol mo hwn, ond yn hytrach mae'n darparu fframwaith gwleidyddol ar gyfer trafodaethau ynglŷn â'r berthynas yn y dyfodol. Er bod rhai newidiadau pwysig wedi'u gwneud i'r Datganiad, mae llawer o'r testun yn aros yr un fath.

### Y Prif Newidiadau

- Mae'r Datganiad yn nodi'n benodol y bydd y ddwy ochr yn anelu at ddod i gytundeb ar y berthynas yn y dyfodol erbyn diwedd y cyfnod pontio presennol (31 Rhagfyr 2020).
- Mae'r ymrwymadau yn y Datganiad yn fwy llac o ran trefniadau tollau ac felly rheolau tarddiad.
- Ychwanegwyd paragraff manylach ar sicrhau chwarae teg rhwng y DU a'r UE mewn unrhyw berthynas yn y dyfodol. Mae paragraff 77 o'r Datganiad yn nodi y bydd y ddwy ochr yn cynnal y safonau uchel cyffredin o ran cymorth gwladwriaethol, cystadleuaeth, trethiant, safonau cymdeithasol a chyflogaeth, yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd mewn unrhyw gytundeb yn y dyfodol. Mae'n nodi: 'the precise nature of commitments should be commensurate with the scope and depth of the future relationship'.
- Gwnaed rhai newidiadau i'r adrannau ar lywodraethu'r berthynas yn y dyfodol. Mae'r Datganiad diwygiedig yn galw yn gyntaf ar y Partion i wneud pob ymdrech i ddatrys unrhyw anghydfodau ynghylch y berthynas yn y dyfodol drwy drafod ac ymgynghori cyn ceisio datrysiaid ffurfiol. Mae hefyd yn dileu'r cyfeiriad at allu'r partion i geisio iawndal ariannol yn achos diffyg cydymffurfiaeth ac yn nodi mai dim ond os bydd anghydfodau yn ymwneud â dehongli cyfraith yr UE y bydd gan Lys Cyfiawnder Ewrop rôl wrth eu datrys.

### Yr ymrwymadau nad ydynt wedi newid

- Mae'r Datganiad yn dal i gynnwys ymrwymiad i bartneriaeth uchelgeisiol, eang, dwys a hyblyg sy'n seiliedig ar Gytundeb Masnach Rydd gyda chydweithrediad y sectorau ehangach.
- Mae'n dal i gynnwys yr ymrwymiad i sefydlu egwyddorion cyffredinol ar gyfer cyfranogiad y DU ar ôl Brexit yn rhai o raglenni'r UE ar wyddoniaeth, ieuencid, diwylliant, addysg, datblygu tramor, y gofod ac amddiffyn.

- Mae'n cadw'r opsiwn i'r DU ystyried meithrin perthynas yn y dyfodol â Banc Buddsoddi Ewrop a'r posibilrwydd y gallai'r DU gydweithredu â rhai o asiantaethau'r UE, fel Asiantaeth Meddyginiaethau Ewrop, Asiantaeth Cemegau Ewrop ac Asiantaeth Diogelwch Hedfan Ewrop.
- Y gallai'r cytundeb rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol fod ar ffurf Cytundeb Cysylltu.

### Y camau nesaf

Er mwyn i'r Cytundeb Ymadael gael ei gadarnhau, rhaid i'r Senedd gytuno arno a rhaid iddo gael ei weithredu gan ddeddfwriaeth. Rhaid iddo hefyd gael ei fabwysiadu gan Senedd Ewrop cyn iddo gael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor Ewropeaidd. Oni chaniateir estyniad, bydd angen i hyn ddigwydd erbyn 31 Hydref.

Dyweddodd Jean-Claude Juncker, Llywydd Comisiwn yr UE, **pe bai'r Cytundeb Ymadael gael yn cael ei gadarnhau,** bydd y trafodaethau ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol yn dechrau ar 1 Tachwedd yn ddi-oed. Trefnwyd **cyfarfodydd nesaf Cyngor yr UE** ar gyfer 12-13 Rhagfyr a 26-27 Mawrth 2020.

## 3. Ymateb y DU

### Datganiadau Llywodraeth y DU

Cynhaliodd y Prif Weinidog **gynhadledd i'r wasg** ar 17 Hydref yn cyhoeddi bod cytundeb wedi'i gyrraedd:

[W]hat it means is that we in the UK can come out of the EU as one United Kingdom - England, Scotland, Wales, Northern Ireland, together, and it means we can decide our future together, we can take back control, as the phrase goes, of our money, our borders, our laws, together. And we will be able to do free trade agreements around the world. We can also build now, after three and a half years, we can build now on our relations with our friends and partners in the EU.

Ychwanegodd:

It hasn't always been an easy experience for the UK. It has been long, it has been painful, it has been divisive, and now is the moment for us as a country to come together.

Now this is the moment for our parliamentarians to come together and get this thing done, and, as I say, to begin building a new and progressive partnership with our EU friends, with whom, of course, we share so many priorities.

### Datganiadau'r wrthblaid

Jeremy Corbyn AS, Arweinydd yr Wrthblaid

---

Dyma a **drydarodd** Jeremy Corbyn AS, Arweinydd yr Wrthblaid:

From what we know, it seems the Prime Minister has negotiated an even worse deal than Theresa May's, which was overwhelmingly rejected.

These proposals risk triggering a race to the bottom on rights and protections: putting food safety at risk, cutting environmental standards and workers' rights, and opening up our NHS to a takeover by US private corporations.

This sell-out deal won't bring the country together and should be rejected. The best way to get Brexit sorted is to give the people the final say in a public vote.

Prif Weinidog yr Alban, Nicola Sturgeon

---

Dyma a **ddywedodd** Nicola Sturgeon, Prif Weinidog yr Alban, wrth y BBC:

It's hard to imagine a deal that could be worse for Scotland, it's worse even than Theresa May's deal. It takes Scotland out of the EU, out of the single market, out of the customs union, all against our will. It would put us at a competitive disadvantage with Northern Ireland and it leaves us as the only part of the UK that has no say over our future. England and Wales voted to leave, Northern Ireland voted to remain like Scotland but it's to be given a say over how closely it will remain aligned with EU rules.

So that's the position this deal would put Scotland in, the SNP will not vote for that. And it's becoming crystal clear now that the only way for Scotland actually to be in charge of our own future is to be independent, which is why having that say over our own future next year is so important.

Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru

---

**Trydarodd** y Prif Weinidog:

Nid yw'r cytundeb hwn yn gwneud dim i amddiffyn buddiannau Cymru; heb sôn am ddiogelu ein heconomi a'n swyddi. Bydd yn ein rhwygo allan o'r farchnad sengl a'r undeb tollau, ac yn creu rhwystrau newydd i fasnachu a fyddai'n gwneud Cymru'n dlotach.

## 4. Ymateb yr UE

Jean-Claude Juncker, Arlywydd y Comisiwn Ewropeaidd

---

Wrth ymateb i'r Cytundeb, dyma a **ddywedodd** Llywydd Comisiwn yr UE:

This agreement is a fair compromise between the EU and the UK. It is testament to the commitment and willingness of both sides to do what is best for EU and UK citizens. We now have a newly agreed Protocol that protects peace and stability on the island of Ireland and fully protects our Single Market. I hope that we can now bring this over the line and provide the certainty our citizens and businesses so deserve.

Yn dilyn cyfarfod y Cyngor, **dywedodd Llywydd Comisiwn yr UE wrth ohebwy** y tu allan i gyfarfod Cyngor yr UE:

There will be no prolongation. We have concluded a deal and so there is not an argument for the delay. It has to be done now.

Donald Tusk, Llywydd y Cyngor Ewropeaidd

---

**Dywedodd** Donald Tusk, Llywydd y Cyngor Ewropeaidd:

We have a deal, which allows us to avoid chaos and an atmosphere of conflict between the EU27 and the United Kingdom. (...) Now we are all waiting for the votes in both Parliaments.

Emmanuel Macron, Arlywydd Ffrainc:

---

Dyma **ddyfyniad o'r hyn a ddywedodd Emmanuel Macron**, Arlywydd Ffrainc:

I am not trying to read into the future but I do not think we shall grant any further delay. I think it is time to put an end to these negotiations and move on to the future relationship. And put to an end to what is currently ongoing.

What matters is to stick to the commitment we made and the deadline we set ourselves. It is up to each and every one to make their own decisions. There shall be no delay unless there are major changes.

Angela Merkel, Canghellor yr Almaen

---

Nodwyd mewn adroddiadau bod Angela Merkel, Canghellor yr Almaen, wedi dweud wrth gyd-arweinwyr yr UE mewn trafodaethau preifat yng nghyfarfod y Cyngor y byddai estyniad yn 'anochel' pe bai'r DU yn gofyn am hynny.



## 5. Datblygiadau yn y DU

### Araith y Frenhines

Ddydd Llun 14 Hydref traddododd y Frenhines ei haraith wrth agor y Senedd ac amlinellodd ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU sydd ar ddod ar gyfer y flwyddyn seneddol nesaf. Roedd araith y Frenhines yn cynnwys saith Bil yn ymwneud â chyflawni Brexit, sef:

- Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael),
- Y Bil Amaethyddiaeth,
- Y Bil Pysgodfeydd,
- Y Bil Masnach,
- Y Bil Cydlynu Mewnfudo a Nawdd Cymdeithasol (Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd),
- Y Bil Gwasanaethau Ariannol,
- Y Bil Cyfraith Ryngwladol Breifat (gweithredu Cytundebau).

### Heriau cyfreithiol i'r Cytundeb Ymadael newydd

#### Llys y Sesiwn

**Cyflwynwyd her gyfreithiol** yn sgil y Cytundeb Ymadael diweddaraf yn Llys y Sesiwn yn yr Alban gan Jo Maugham QC, ymgyrchydd ac aelod o'r Good Law Project, ar y sail ei fod yn mynd yn groes i adran 55 o Ddeddf Trethiant (Masnach Drawsffiniol) 2018, sy'n nodi:

*It shall be unlawful for Her Majesty's government to enter into arrangements under which Northern Ireland forms part of a separate customs territory to Great Britain.*

Yn ystod hynt y Bil drwy'r Senedd, cyflwynwyd gwelliant (cymal 37 'newydd') mewn perthynas â hyn yn enw Laurence Robertson AS ar ran Llywodraeth y DU. Yn ystod y **ddadl ar y pryd**, esboniodd Mr Robertson:

*This new clause would provide a guarantee that shows we value the Union and recognise the importance of strengthening it, but also acknowledge the importance and the value of our most important trading arrangement, the UK internal market. Above all, it would contribute to upholding the constitutional integrity of the United Kingdom and safeguard the Union for the future.*

*New clause 37 reinforces a view that I am confident is shared on both sides of the House, which is that we cannot accept a deal that would allow Northern Ireland to be considered a separate customs territory from Great Britain.*

Gofynnodd y deisebwyr am waharddiad a fyddai'n atal y Cytundeb Ymadael newydd yn ogystal â gorchymyn llys i roi testun llawn a therfynol y Cytundeb gerbron ASau.

Ddydd Gwener 18 Hydref, **dyfarnodd y Llys yn erbyn** y deisebwyr. Dyfarnodd yr Arglwydd Pentland fod cymhwysedd y ddeiseb yn amheus iawn gan y byddai wedi ymyrryd i raddau helaeth ar y trafodion arfaethedig yn Senedd y DU ddydd Sadwrn 19 Hydref. At hynny, canfu'r Arglwydd Pentland fod dadl y deisebydd fod y Cytundeb Ymadael yn tynnu Gogledd Iwerddon o diriogaeth tollau'r DU yn ddadl wan. Mynegodd yr Arglwydd Pentland ei farn bod Erthygl 4 o'r protocol drafft newydd yn nodi bwriad clir i gadw Gogledd Iwerddon o fewn tiriogaeth tollau'r DU.

#### Y Llys Apêl

Gwnaethpwyd ail gais yn galw am Orchymyn i orfodi Llywodraeth y DU i gydymffurfio â'r Ddeddf i'r Uchel Lys yng Nghymru a Lloegr ar 8 Hydref gan aelodau'r Undeb i Weithwyr ar Gyflog Isel a Liberty. Cafodd yr achos wrandawriad ddydd Gwener 18 Hydref gan dri barnwr yn y Llys Apêl. Gwrthododd y tri barnwr yr apêl ac fe **nodwyd mewn adroddiadau** y byddant yn cyhoeddi eu rhesymau llawn yn y dyfodol.

### Y Twrnai Cyffredinol yn cyhoeddi barn gyfreithiol

Cyhoeddwyd **barn gyfreithiol Geoffrey Cox, y Twrnai Cyffredinol** ar derfynadwyedd y Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon ar 18 Hydref. Mae'r farn yn cynghori nad oes unrhyw sail y gallai'r UE fynnu bod Gogledd Iwerddon yn parhau i gadw at reolau cytunedig yr UE heb gydsyniad Cynulliad Gogledd Iwerddon:

*Article 18 of the Protocol provides for a process by which democratic consent in Northern Ireland must be obtained to the continued application of Articles 5 to 10 of the Protocol after an initial period ending four years after the end of the transition period. The mechanism for obtaining democratic consent is set out in the unilateral declaration referred to in paragraph 2 of Article 18.*

*Article 18 plainly makes the continuation of the application of Articles 5 to 10 of the Protocol conditional upon the obtaining of consent by the mechanism described in the Unilateral Declaration.*

*There are no grounds for supposing that the EU would have any legal*

basis to assert that Articles 5 to 10 of the Protocol should continue to apply absent that consent or that the EU would possess a veto over the right of members of the Northern Ireland Legislative Assembly to withhold consent to the continued application of those provisions.

At hynny, **nodwyd bod y Twrnai Cyffredinol** wedi dweud wrth y Cabinet mewn cyfarfod ar 17 Hydref nad oedd unrhyw elfennau o'r Protocol yn anghydnaws â Chytundeb Dydd Gwener y Groglith.

## Sesiwn frys Senedd y DU ddydd Sadwrn

**Cyflwynwyd cynnig** gan Jacob Rees-Mogg, Arweinydd y Tŷ, i gynnal sesiwn frys ddydd Sadwrn 19 Hydref. Nid oedd sesiwn o'r fath wedi'i chynnal ar ddydd Sadwrn ers 37 mlynedd. Mae **Tŷ'r Cyffredin wedi ymgynnull ar ddydd Sadwrn** bedair gwaith yn y gorffennol: ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd ym 1939, cyn toriad yr haf ym 1949, argyfwng Camlas Suez ym 1956 ac yn ystod goresgyniad Ynysoedd Falkland ym 1982. **Pasiwyd y cynnig** o 287 o bleidleisiau yn erbyn 275.

Ddydd Mercher 17 Hydref, ysgrifennodd Hilary Benn, Cadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, at Stephen Barclay, y Gweinidog dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, **yn gofyn i'r Llywodraeth ddarparu asesiad o effaith economaidd** y Cytundeb diwygiedig cyn y bleidlais ddydd Sadwrn, gan ddweud:

Given the significance in particular of the revised political declaration and the Government's previous assessment of the adverse economic impact of a free trade agreement with the EU, I think it is really important that colleagues have the fullest assessment available to them in order to inform their decision.

Ddydd Gwener 18 Hydref, **dywedodd Sajid Javid AS, y Canghellor**, nad oedd yn credu bod angen asesiad effaith economaidd newydd.

## Gwelliannau

**Cyflwynodd Llywodraeth y DU ddau gynnig** ar gyfer y sesiwn ddydd Sadwrn. Roedd y cynnig cyntaf yn trafod gadael yr UE gyda chytundeb a'r ail yn trafod gadael heb gytundeb. Roedd y cyntaf yn nodi:

That, in light of the new deal agreed with the European Union, which enables the United Kingdom to respect the result of the referendum on its membership of the European Union and to leave the European Union on 31 October with a deal, and for the purposes of section 1(1)(a) of the European Union (Withdrawal) (No. 2) Act 2019 and section 13(1)(b) of the European Union (Withdrawal) Act 2018, this House approves the negotiated withdrawal agreement titled Agreement on the withdrawal of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland from the

European Union and the European Atomic Energy Community and the framework for the future relationship titled Political Declaration setting out the framework for the future relationship between the European Union and the United Kingdom that the United Kingdom has concluded with the European Union under Article 50(2) of the Treaty on European Union, as well as a Declaration by Her Majesty's Government of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland concerning the operation of the Democratic consent in Northern Ireland provision of the Protocol on Ireland/Northern Ireland, copies of these three documents which were laid before this House on Saturday 19 October.

Cyflwynwyd tri gwelliant i'r cynnig hwn. Roedd gwelliant (a), a gyflwynwyd gan Oliver Letwin AS, yn galw ar y Tŷ i beidio â chymeradwyo'r cynnig oni bai fod deddfwriaeth gweithredu yn cael ei phasio ac i aros tan fod hynny'n digwydd.

Diben y gwelliant oedd sicrhau ei bod yn ofynnol i Lywodraeth y DU gyflwyno a phasio'r Bil Cytundeb Ymadael, gan weithredu testun y Cytundeb Ymadael yng nghyfraith y DU, cyn i'r DU ymadael â'r UE. **Pasiwyd y gwelliant** hwn o 322 o bleidleisiau yn erbyn 306.

Roedd rhai o Aelodau'r wrthblaid ac Aelodau annibynnol yn pryderu, hyd yn oed pe bai Llywodraeth y DU yn sicrhau pleidlais ystyrion o blaid y Cytundeb yn y Senedd, na fyddai modd iddi gyflwyno'r deddfwriaeth angenrheidiol i weithredu'r Cytundeb yn y gyfraith, gan beri i'r DU adael yn ddiodyn heb gytundeb ar 31 Hydref.

Yn sgil pasio'r gwelliant hwn, roedd yn rhaid i'r Prif Weinidog anfon llythyr at yr UE yn gofyn am estyniad i'r cyfnod negodi yn unol â gofynion Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2019, sef Deddf 'Benn'.

Roedd ail gynnig y Llywodraeth yn ystyried ymadael â'r UE heb gytundeb. Roedd yn nodi: That this House approves the withdrawal of the United Kingdom from the European Union under Article 50 of the Treaty on European Union on exit day, without a withdrawal agreement as defined in section 20(1) of the European Union (Withdrawal) Act 2018.

O ganlyniad i'r gwelliant a wnaed i gynnig cyntaf y Llywodraeth ni chynigiwyd y cynnig hwn.

## Bil y Cytundeb Ymadael

**Yn ei llythyr** at Donald Tusk, Arlywydd y Cyngor Ewropeaidd, amlinellodd y Prif Weinidog y bydd ei Lywodraeth yn cyflwyno'r Bil Cytundeb Ymadael yn gynnar yr wythnos hon er mwyn bwrw ymlaen â chadarnhau'r Cytundeb Ymadael. Dywed y Prif Weinidog ei fod yn hyderus y gellir cyflawni hyn erbyn 31 Hydref. Cyflwynwyd **Bil y Cytundeb Ymadael**, ar 21 Hydref a bydd yr **ail ddarlleniad** yn dechrau ar unwaith.

**Wrth ymateb i'r ddadl** yn Senedd y DU, dywedodd Mark Drakeford AC, Prif Weinidog Cymru, y dylid diwygio unrhyw Fil i gynnwys refferendwm ar y cytundeb.

## Her gyfreithiol i ddiffyg cydymffurfiaeth â Deddf Benn

### Gofynion Deddf Benn

Ddydd Mawrth 3 Medi, pleidleisiodd Senedd y DU i basio **Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (Rhif 2) 2019**. Mae'r Ddeddf

- Yn rhoi rhwymedigaeth ar Lywodraeth y DU i gael caniatâd y Senedd pe bai cytundeb ymadael yn cael ei gytuno ai peidio;
- Os na fodlonir y gweithdrefnau ar gyfer cael caniatâd erbyn 19 Hydref, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Weinidog y DU anfon llythyr penodol (a gynhwysir yn y Ddeddf) ar 19 Hydref at Gyngor yr UE yn gofyn am estyniad arall i gyfnod Erthygl 50 hyd at 31 Ionawr 2020.
- Mae'r Bil yn rhoi dyletswydd ar Brif Weinidog y DU i dderbyn cynnig estyniad Cyngor yr UE ar unwaith, gan gynnwys derbyn dyddiad arall a awgrymir gan yr UE.
- Mae'n rhaid derbyn dyddiad arall o fewn dau ddiwrnod oni bai fod Tŷ'r Cyffredin yn gwrthod hyn.

## Her gyfreithiol i ddiffyg cydymffurfiaeth

Ddydd Llun 7 Hydref, **gwrthododd Llys Sesiwn Allanol yr Alban** y cais gan Dale Vince, entrepreneur ynni gwyrdd, Jolyon Maugham QC, a Joanna Cherry QC, un o Aelodau Seneddol yr SNP, i'r Llys gyhoeddi gorchymyn yn gorfodi Llywodraeth y DU i gydymffurfio â gofynion 'Deddf Benn'. Canfu'r Llys fod yn rhaid derbyn fel ffaith y sicrwydd a roddwyd, mewn papurau cyfreithiol i'r Llys gan Lywodraeth y DU ddydd Gwener 4 Hydref, y byddai'r Prif Weinidog yn cydymffurfio â'r Ddeddf ac na allai'r Llys amau'r sicrwydd hwn:

Yn dilyn dyfarniad y Llys Allanol, cyflwynodd yr un apelwyr yr achos i Lys Sesiwn Fewnol yr Alban.

Ddydd Mawrth 8 Hydref, **penderfynodd Llys Sesiwn Fewnol yr Alban** ohirio'r achos tan 21 Hydref fel y gallai weithredu pe bai'r Prif Weinidog yn methu â chydymffurfio â gofynion 'Deddf Benn' mewn unrhyw ffordd:

At this stage, there is no basis for granting any of the orders sought by the petitioners in either process. Before coercive measures are granted, the court must be satisfied that they are necessary; i.e. that there are reasonable grounds for apprehending that a party will not comply with the relevant statutory or other legal obligation. In the normal case, that will often involve that party having already failed to comply with the obligation within the statutory or other time limit. In this case, whether the Prime Minister will ever require to send a letter containing an extension request is uncertain. The UK Government and the EU may reach a deal. Parliament may approve a "no deal" Brexit. If neither event occurs, it has not been disputed that the PM must send the letter. Until the time for sending the letter has arrived, the PM has not acted unlawfully, whatever he and his officials are reported to have said privately or in public.

Dyfarnodd y Llys fod hwn yn fater na ellir ond ei gadarnhau am hanner nos ar 19 Hydref [paragraff 11]. Nododd y gallai lofnodi'r llythyrau perthnasol ar ran y Prif Weinidog pe bai'n methu â gweithredu gan ddefnyddio ei bwerau *nobile officium*, sy'n ffordd o ymgymryd â rhwymedïau i lenwi'r bylchau mewn deddfau lle nad oes datrysiaid arall ar gael:

It is only once that period has expired without the order being obtempered that the court would consider authorising an official to sign the letter which the PM may have failed to do. [paragraph 9]

Ar ôl i'r Prif Weinidog anfon sawl llythyr at Gyngor yr UE ar 19 Hydref, gwnaed cais i'r Llys, yn ôl adroddiad gan y BBC, ddyfarnu bellach a yw gwneud hynny yn 'rhwystro' diben Deddf Benn.

## Y llythyr yn gofyn am estyniad i'r Negodiadau Ymadael

Ar 19 Hydref, yn unol â gofynion Deddf 'Benn', **anfonodd y Prif Weinidog lythyr** at Donald Tusk, Arlywydd y Cyngor Ewropeaidd. Roedd y llythyr yn dilyn y ffurf a nodwyd yn y Ddeddf ond ni chafodd ei lofnodi gan y Prif Weinidog.

Yn ogystal at hynny, anfonodd y Prif Weinidog **lythyr ar wahân** at Mr Tusk yn nodi ei siom na phleidleisiodd y Senedd o blaid y Cytundeb Ymadael ar 19 Hydref. Mae'r llythyr yn dweud:

While it is open to the European Council to accede to the request mandated by the Parliament or to offer an alternative extension period, I have made clear since becoming Prime Minister, and made clear to Parliament again today, my view, and the Government's position, that a further extension would damage the interest of the UK and our EU partners and the relationship between us.

**Cadarnhaodd Mr Tusk** fod y cais am estyniad wedi cyrraedd ac y byddai'n dechrau ymgynghori ag arweinwyr yr UE ar sut i ymateb. Cyfarfu Llysgenhadon 27 Aelod-wladwriaeth yr UE ddydd Sul i ystyried y camau nesaf ond ni chyhoeddwyd unrhyw benderfyniad ar yr estyniad bryd hynny. Nodwyd **mewn adroddiadau** fod y Llysgenhadon wedi cytuno'n ffurfiol i Mr Tusk ddechrau ymgynghori â'r Aelod-wladwriaethau ar y ffordd ymlaen ac y byddant yn aros i weld y datblygiadau yn Senedd y DU yr wythnos hon cyn dod i benderfyniad terfynol.

## Y paratodau ar gyfer ymadael heb gytundeb

**Cyhoeddodd Michael Gove AS**, Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn, ar 20 Hydref ei fod yn rhoi cynllun Llywodraeth y DU ar gyfer ymadael heb gytundeb ar waith. Wrth siarad â gohebydd o Sky News, dywedodd y byddai'n cadeirio cyfarfod cabinet yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw er mwyn rhoi Operation Yellowhammer ar waith, sef cynllun wrth gefn y Llywodraeth i baratoi ar gyfer y posibilrwydd o ymadael heb gytundeb.

## 6. Yr ymateb gan Gymru a'r Alban

Ar 21 Hydref, **cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog yr Alban. Lythyrau ar y cyd** at y Prif Weinidog, lle dywedasant:

Both our governments believe the deal you have negotiated with the EU will be even more damaging to Wales, Scotland and the United Kingdom than the previous unacceptable agreement made by your predecessor. We therefore wish to state in the clearest possible terms that we and our legislatures need time to analyse and consider the draft Bill. We share the view which lay behind the amendment passed by a clear majority of the House of Commons that the time between now and 31 October provides insufficient opportunity to undertake this essential scrutiny.

Cyhoeddodd y Prif Weinidogion lythyr ar y cyd at Donald Tusk hefyd, Arlywydd y Cyngor Ewropeaidd, lle gwnaethant ofyn am i'r estyniad gael ei ganiatáu:

We are writing subsequent to the agreement reached between the UK Government and the European Union on 17 October and proceedings in the UK Parliament on 19 October. The Prime Minister has now sent you a letter to request an extension to the Article 50 process from the European Council, as he is required to do by law in the EU (Withdrawal) No. 2 Act, 2019 ('the Benn Act'). We are writing to support that request for an extension so that there is no risk of a UK exit before a Withdrawal Agreement has been ratified by both the EU and UK. Our joint view is that the ultimate result of the Westminster Parliamentary process should be a referendum on EU membership. But in any event it is also essential to ensure that there is sufficient time for proper scrutiny of the Withdrawal Agreement Bill.

Dywedasant hefyd

A critical part of the legislative process on any Bill which affects devolved competences is that the Scottish Parliament and National Assembly for Wales are invited to provide legislative consent. This is clearly the case with the Withdrawal Agreement Bill. This obviously requires detailed analysis and scrutiny of what we understand will be a lengthy and complex piece of legislation which has only been sent to us in the last 24 hours.

Yn olaf, mae'r llythyr yn nodi:

It is simply impossible for us to fulfil our constitutional responsibilities in this timescale, which is dictated by the way in which the Prime Minister delayed tabling formal proposals. An extension would allow us to adequately scrutinise the agreement and the draft legislation in accordance with our constitutional responsibilities. While clearly it is a matter for the Council to consider how long such an extension should be, we would favour one which is long enough to enable a referendum with remain on the ballot paper to be held in the UK. Both of our Governments and legislatures are in favour of such a referendum and of the UK remaining in the EU.